Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Gorffennaf 14, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams a Carwyn Evans. Hefyd Henry Edwards

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams, Elfed ap Gomer, Gareth Ellis a Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 9, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 9, 2015

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Bil (2/6/2015) am £115.20 oddi wrth W.R. Evans & Son am drwsio'r gât y fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Derbyniwyd (22/6/2015) £480 (hawl claddu) oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at Ernest Arthur Collett. Nid oes taliad at gladdedigaeth gyntaf oherwydd roedd Paul Cook yn gwneud y gwaith yn ddi-dâl. Angladd ar 5/6/2015.

c. Llythyr (26/6/2015) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod bod taliadau cyflog y Clerc wedi newid.

Taliad chwarterol i'r Clerc yn newid o £260.25 i £260.05.
Taliad i chwarterol i Gyllid a Thollau EM yn newid o £64.80 i £65.00.
Cyfanswm: £1,300.18. Gweler Cofnodion Ebrill 14, 2015.

d. Llythyr (Mehefin 30, 2015) oddi wrth Hacker Young yn gofyn am ddatganiad Cysoniad Banc am y flwyddyn yn diweddu 13 Mawrth 2015. Rhoddwyd y wybodaeth iddynt.

dd. Bil (27/6/2015) am £1,328.00 oddi wrth Mr I.W. Thompson am dorri llwybrau cyhoeddus Llanelltyd.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2015: £8,811.05.

f. Llythyr (10/5/2015) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £600.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (7/7/2015) oddi wrth Mr P. Leeds yn dymuno gosod mainc yn y Fynwent yn lle talu'r ffi o £100 am osod cofeb. Gyda'r llythyr mae plan yn dangos lleoliad y fainc.

Penderfynwyd derbyn y cynnig.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/133C. Codi ystafell ddosbarth dwbl symudol unllawr dros dro a tho fflat, adeilad toiled a chyfleusterau golchi dwylo symudol, ac uned storio dros dro ar ffurf cynhwysydd llongau. Ysgol Gynradd Llanelltyd, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (17/06/2015).

ii. NP5/65/334. Adeiladu estyniad ochr unllawr. Pennant, 22 Bro Cymer, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (24/6/2015).

iii. NP5/65/T328. Adeiladu estyniad ochr deulawr a garej arwahan. Heulfryn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (3/7/2015).

iiii. NP5/65/330. Am newid cladin allanol. Hafod Fach, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (3/7/2015).

b. Llythyr (19/06/2015) yn rhoi gwybod maent yn recriwtio 3 neu 4 i gymryd rhan yn eu rhaglen mentora fydd yn cychwyn mis Medi 2015 gan obeithio iddynt ddod yn Aelodau. Amgáu mae posteri yn rhoi gwybodaeth.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/134D. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Diwygiad ansylweddol ar gyfer newid goleddf a penty'r cefn a newid rendr i 'K Rend'. Ty'n yr Ardd, Llanelltyd.

ii. Cais NP5/65/289C. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adeiladu estyniad ac ymestyn cwrtil. Tawelfryn, Llanelltyd.

ch. Llythyr (7/7/2015) yn rhoi gwybodaeth amseroedd a'r dyddiadau ar gyfer prif bwyllgorau'r Awdurdod ar gyfer 2015/2016.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (9/6/2015) oddi wrth Un Llais Cymru gyda holiadur eisiau gwybod defnydd o TG a'r Rhyngrwyd gan y Cyngor. Rhoddwyd y wybodaeth iddynt.

b. Llythyr (12/6/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â bwriad Cyngor Gwynedd i wneud cais gerbron Llys Ynadon Dolgellau ar 20fed o Awst nesaf i gau ymyl priffordd sy'n bodoli ar ochr dde-orllewin ffordd Llanelltyd-Dolgellau (A496) ger 'Pen y Garnedd, Llanelltyd. Amgaeedig mae copi o'r rhybudd o fwriad a hefyd y cynllun a'r lluniau sy'n dangos y llain dan sylw.

Amgáu hefyd mae llythyr i'w arwyddo i gadarnhau nid yw'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu i'r cais. Arwyddwyd ffurflen i gadarnhau hyn (Cofnodion Ebrill 14, 2015).

c. Llythyr (10/6/2015) oddi wrth Adran Iechyd a Gwasanaethu Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ynglŷn â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) - Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Mae'r Bil yn cael ei archwilio gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

ch. Llythyr (10/6/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer Chofrestru - Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Oherwydd toriadau gyllideb, mae'r Cyngor yn ail strwytho'r gwasanaeth cofrestru yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn ddyddiol 10:00yb-12:00yp a 2.00yp-4.00yp yn Swyddfa Dolgellau. O Hydref 1, 2015 bydd y gwasanaeth yn y bore yn unig h.y. 10:00yb-12:00yp.

d. Llythyr (10/6/2015) oddi wrth Adran Addysg, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod y diweddaraf at sefydlu ysgol ddilynol dalgylch Y Gader. Rhoddwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (17/06/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Modiwl 4 - Dealltwriaeth o'r Gyfraith (C) yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar 07/07/2015 am 6.30yh.

Mae Elfed ap Gomer am fod yn bresennol.
Mae'r cwrs wedi cael ei ganslo oherwydd diffyg cefnogaeth (30/6/2015).

e. Llythyr (Mehefin 2015) oddi wrth Adran Economi a Chymuned yn cynnwys holiadur ynglŷn ag ymgynghoriad darpariaeth llyfrgelloedd teithiol i gymunedau gwledig.

f. Llythyr (26/6/2015) oddi wrth Cymdeithion Sîan Shakespear yn gwahodd aelod o'r Cyngor i weithdy ymgynghoriad ar ddyfodol Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Gwynedd ar ddydd Mercher Gorffennaf 15 am 6.00yh yng Nghanolfan Celfyddydau Porthmadog. Nid yw'r ymgynghoriad yn trafod Her Gwynedd a thoriadau i Cyngor Gwynedd.

ff. Llythyr (17/6/2015) oddi wrth Partneriaeth Economaidd Gwynedd, Cyngor Gwynedd. Amgáu mae llyfryn yn rhoi gweithgareddau'r Bartneriaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

g. Llythyr (23/6/2015) oddi wrth Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth yn awgrymu cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio fel sy'n cael ei wneud yn ardal Penllyn. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Wener Medi 25 am 7.30yh. i drafod y mater.

Penderfynwyd bod yn bresennol yn y cyfarfod.

h. Llythyr (23/6/2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith arwisgo yn cael ei wneud ar yr A470 o Llanelltyd i Maesmawr.

i. Llythyr (Mehefin 2105) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnal gweithdy hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref yn Adeilad yr Institiwt, Pavillion Hill, Caernarfon ar ddydd Llun Gorffennaf 27, 2015 rhwng 6.00yh-9.00yh.

j. Llythyr (25/6/2015) oddi wrth Ombwdsmon yn cynnwys Adroddiad Blynyddol 2014/15.

l. E-bost (3/7/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir eu Cynhadledd ar ddydd Sadwrn, Hydref 3, 2015 am 9.30yb, yn Pafiliwn y Bont, Pontrhydfendigaid. Y gost fydd £85 y pen.

Derbyniwyd cynnig Elfed ap Gomer i fod yn bresennol yn y Cynhadledd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Materion Brys

a. Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd adroddiad gan ddau swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru yn egluro gwaith maent am wneud yn y goedwig ar dir llechwedd yn Llanelltyd. Maent am dorri coed ond cyn hynny bydd ffordd yn cael ei adeiladu trwy'r goedwig i symud y coed i'r ffordd A496. Bydd coed yn cael eu plannu lle bydd coed yn cael eu torri.
Cyn i'r gwaith cael ei wneud bydd rhaid iddynt cael caniatâd cynllunio oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau cyn diwedd y flwyddyn. Derbyniwyd tri plan yn dangos eu cynlluniau.

Y Swyddog cysylltiedig â'r project yw Ms Nicola Maysmor nicola.maysmor@cyfoetthnaturiolcymru.gov.uk Rhif ffôn 07818 452 411.